**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Ariannu a Strategaeth ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
21 Chwefror 2025

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau 2025") yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018.

1.2 Bydd Rheoliadau 2025 yn diwygio'r rheoliadau hynny i:

- gynyddu'r capiau ar ffioedd dysgu cyrsiau gradd llawnamser;
- cymhwyso'r capiau hyn i'r holl bersonau cymhwysol ar gyrsiau cymhwysol mewn sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025; a
- chynyddu swm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025 yn unol â hynny.

1.3 Nid yw cynyddu'r cap ar ffioedd dysgu yn cynyddu'r ffi dysgu a godir, sy'n fater i'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac adrannau 5(3) a 55 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud y rheoliadau hyn.

3.2 Mae adrannau 5(3) a 55 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynyddu'r cap ar ffioedd dysgu drwy ragnodi "uchafswm". Ni all terfyn ffioedd a bennir yng nghynllun ffioedd a mynediad sefydliad addysg uwch fod yn fwy na'r uchafswm hwn. Mae'r pŵer i ragnodi'r uchafswm wedi'i fframio'n eang, ac nid oes cymwysterau na chyfyngiadau datganedig ar sut i'w arfer.

3.3 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 22(1) a (2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.4 Mae Rheoliadau 2025 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn rhinwedd adran 42(2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac adran 55(5) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Dim ond y rheoliadau cyntaf sydd i'w gwneud o dan adran 22 o Ddeddf 1998 ac adran 5(3) o Ddeddf 2015 sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (yn rhinwedd adran 42(4) o Ddeddf 1998 ac adran 55(3) a (4) o Ddeddf 2015 yn y drefn honno). Gan fod y rheoliadau cyntaf wedi'u gwneud yn y ddau achos, mae'r holl reoliadau dilynol, gan gynnwys y rhain, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio'r rheoliadau presennol fel yr amlinellir isod.

4.2 Mae sefydlu terfynau ar y ffioedd y caiff darparwyr rheoleiddiedig eu codi yn bolisi sefydledig. Mae cynyddu gwerth y capiau ar ffioedd dysgu yn ymateb uniongyrchol i'r pwysau chwyddiannol sy'n parhau i wynebu darparwyr rheoleiddiedig. Bydd cynyddu'r capiau ar ffioedd dysgu yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 ar gyfer cyrsiau gradd llawnamser yn galluogi sefydliadau Cymru i godi ffioedd sy'n adlewyrchu rhywfaint o'r pwysau hyn ar gostau.

*Newidiadau i gapiau ffioedd yng Nghymru (cyrsiau gradd llawnamser)*

4.3 Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer codi uchafswm o ran ffioedd (y "cap ar ffioedd dysgu") ar bobl benodol ("personau cymhwysol") ar gyrsiau penodol ("cyrsiau cymhwysol"). Mae cwrs cymhwysol, y darperir disgrifiad ohono gan reoliadau (Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015), yn un sy'n cael ei gynnwys yng "nghynllun ffioedd a mynediad" darparwr, sy'n gynllun y mae'n rhaid ei gymeradwyo gan Medr. Mae cynllun ffioedd a mynediad yn galluogi darparwyr rheoleiddiedig i ddatgan sut y byddant yn mynd ati i gyflawni amcanion polisi penodol Gweinidogion Cymru. Os caiff y cynllun ei gymeradwyo, caiff

darparwyr godi ffi hyd at y cap ar ffioedd dysgu ar bersonau cymhwysol (y darperir ar eu cyfer hefyd gan Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015) ar gyfer y cyrsiau yn eu cynllun. Mae'r swm y byddant yn ei godi wedi'i nodi yn eu cynllun ffioedd a mynediad.

4.4 Mae'r capiau ar ffioedd yn berthnasol i bersonau cymhwysol yn unig. Mae'r rhain yn fyfyrwyr sydd â chysylltiad â'r DU ac yn perthyn i dri grŵp eang: y rhai sydd wedi ymgartrefu yn y DU, gwladolion yr UE a rhai eraill sy'n dilyn cyrsiau yng Nghymru, a ffoaduriaid ac eraill sydd angen diogelwch dyngarol. Gall myfyrwyr fod yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu i dalu cost uniongyrchol eu haddysg.

4.5 Bydd uchafswm y capiau ar ffioedd dysgu y gellir eu codi ar bersonau cymhwysol ar gyrsiau cymhwysol gan ddarparwr rheoleiddiedig yng Nghymru yn cael eu cynyddu ar gyfer y blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

4.6 O 1 Awst 2025, bydd y capiau ar ffioedd dysgu *y flwyddyn* fel y nodir yn nhabl 1 (a byddant yn cyfateb i'r rhai yn Lloegr).

**Tabl 1. Y capiau presennol ar ffioedd dysgu a'r capiau newydd***

| | **Presennol** | **Newydd** |
|---|---|---|
| Cyrsiau gradd llawnamser | £9,250 | £9,535 |
| Blwyddyn olaf cyrsiau penodol | £4,625 | £4,765 |
| Blynyddoedd academaidd sy'n flynyddoedd lleoliad gwaith/rhyngosod | £1,850 | £1,905 |
| Blynyddoedd academaidd cyrsiau a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor | £1,385 | £1,430 |

* Mae'r tri therfyn ffioedd is wedi'u cysylltu â'r cap ar ffioedd dysgu cyrsiau gradd llawnamser drwy bolisi ar gyfradd o 50%, 20%, a 15% yn y drefn honno.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

4.7 Bydd y newidiadau hyn i'r capiau ar ffioedd dysgu yn berthnasol i bob myfyriwr newydd a myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau sy'n bersonau cymhwysol ar gyrsiau cymhwysol. Er y bydd Rheoliadau 2025 yn newid y cap ar ffioedd dysgu y caiff darparwr rheoleiddiedig yng Nghymru ei godi ar gyfer cwrs addysg uwch y mae'n ei ddarparu, mater i'r darparwr yw lefel y ffi dysgu a godir ar fyfyriwr, yn ogystal ag amseriad unrhyw newidiadau.

*Benthyciad ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn astudio yng Nghymru*

4.8 Bydd benthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru sy'n astudio ar gwrs a gynigir gan ddarparwr a reoleiddir yng Nghymru (sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad) yn cael eu cynyddu i ddarparu ar gyfer y capiau newydd ar ffioedd dysgu (a'r tri therfyn is, fel y nodir yn nhabl 1) ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

4.9 Os nad yw sefydliad yng Nghymru yn dymuno cael cynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo (neu os yw Medr yn gwrthod cymeradwyo un), gallant godi unrhyw ffi y maent yn ei ddewis. Yn yr achos hwn, gall darparwyr wneud cais i gael eu cyrsiau wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru (at ddibenion denu cymorth i fyfyrwyr) fesul cwrs. Os caiff cais ei gymeradwyo, gall myfyriwr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru gael cyfradd is o fenthyciad ffioedd dysgu. Bydd y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar gyrsiau o'r fath yn cynyddu i £6,355 ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

4.10 Mae cymorth ffioedd dysgu ar gael i'r myfyrwyr hynny sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sydd ar gyrsiau mynediad graddedig carlam mewn meddygaeth a deintyddiaeth (sy'n bedair blynedd o hyd). Mae'r cymorth yn cynnwys cymysgedd o fwrsari ffioedd dysgu gan y GIG a benthyciad ffioedd dysgu yn dibynnu ar flwyddyn y cwrs). Bydd benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau mynediad graddedig carlam mewn meddygaeth a deintyddiaeth yn cynyddu i £6,070 ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

*Benthyciad ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio y tu allan i Gymru*

4.11 Bydd y capiau uchaf ar ffioedd dysgu yn Lloegr ar gyfer cyrsiau gradd a gynigir gan ddarparwyr cymeradwy (cap ffioedd) (darparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr y mae uchafswm o ran capiau ar ffioedd yn gymwys iddynt) yn cynyddu i £9,535 ar gyfer cwrs llawnamser safonol a £7,145 ar gyfer cwrs rhan-amser ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Bydd benthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru sy'n astudio ar gwrs a gynigir gan ddarparwr cymeradwy (cap ffioedd) yn Lloegr yn cael eu cynyddu i ddarparu ar gyfer pob un o'r terfynau newydd ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

4.12 Nid yw cyrsiau gradd llawnamser a rhan-amser a gynigir yn Lloegr gan ddarparwyr cymeradwy yn ddarostyngedig i gapiau ar ffioedd dysgu. Bydd benthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru sy'n astudio ar gyrsiau o'r fath a gynigir gan ddarparwyr cymeradwy yn cael eu cynyddu i £6,355 ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

4.13 Gall darparwyr addysg uwch yn yr Alban a Gogledd Iwerddon godi uchafswm ffi dysgu o hyd at £9,535 ar fyfyrwyr israddedig llawnamser o wledydd eraill ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Bydd benthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cynyddu yn unol â hynny ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2025.

### 6. Yr opsiynau

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

6.1 Os na wneir Rheoliadau 2025 ac os nad yw'r capiau ar ffioedd dysgu a'r benthyciadau ffioedd dysgu yn cael eu cynyddu, byddai'r goblygiadau fel a ganlyn:

- ni fyddai darparwyr addysg uwch rheoleiddiedig, sydd wedi profi chwyddiant sylweddol mewn costau, yn gallu cynyddu eu ffioedd, gan leihau refeniw mewn termau real a rhoi pwysau pellach ar eu sefyllfa ariannol.

- ni fyddai effaith ar ddyledion myfyrwyr. Er na fyddai unrhyw effaith uniongyrchol (pris) ar gyfranogiad, gallai'r gostyngiad parhaus yn yr adnoddau sydd ar gael i ddarparwyr addysg uwch ddechrau effeithio ar ansawdd ac agweddau eraill ar y ddarpariaeth, gan wneud addysg uwch yn llai deniadol.

- ni fyddai benthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio ar gwrs a gynigir gan sefydliad y tu allan i Gymru yn talu'r ffi dysgu a godir, lle mae'r sefydliad wedi cynyddu'r ffi ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Byddai hyn yn groes i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o sicrhau nad oes unrhyw fyfyriwr o Gymru yn gorfod talu costau dysgu ymlaen llaw.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

6.2 6.2 Mae gwneud Rheoliadau 2025 yn sicrhau bod y goblygiadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi. Bydd y cynnydd yn y capiau ar ffioedd dysgu yn helpu darparwyr addysg uwch rheoleiddiedig yng Nghymru. Bydd costau dysgu myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio ar gwrs yng Nghymru mewn neu'r tu allan i Gymru yn parhau i gael eu talu ymlaen llaw. Dyma’r opsiwn a ffefrir.

6.3 Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill. Bydd myfyrwyr a'r sector yn cydnabod swm y cynnydd gan y bydd yn gosod darparwyr rheoleiddiedig yng Nghymru ar sail gyfartal â sefydliadau mewn mannau eraill.

### 7. Costau a manteision

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.1 Byddai gadael y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd presennol yn eu lle yn golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr. Bydd darparwyr yn parhau i brofi pwysau o ran costau heb allu cynyddu'r ffioedd a godir ar y mwyafrif o'u myfyrwyr, a chydag uchafswm o ran lefel ffioedd sy'n is na'r hyn y gall darparwyr y tu allan i Gymru ei godi ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Byddai myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio ar gwrs y tu allan i Gymru yn ysgwyddo cost gyfan unrhyw gynnydd yn y ffioedd dysgu a godir.

*Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau 2025*

7.2 Bydd cynyddu'r capiau ar ffioedd dysgu yn helpu darparwyr addysg uwch rheoleiddiedig yng Nghymru i gynhyrchu refeniw ychwanegol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Yn dibynnu ar benderfyniadau darparwyr unigol ynghylch a ddylid cymhwyso'r cynnydd mewn ffioedd, ac ar ba gyrsiau a pha garfan o fyfyrwyr ac ati, gallai'r newid arfaethedig gynhyrchu hyd at £21.9 miliwn ychwanegol y flwyddyn mewn refeniw ffioedd.

7.3 Gall unrhyw newid i'r ffi dysgu a godir gan ddarparwr cwrs effeithio ar fyfyrwyr yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2025/26. Os caiff ffioedd eu cynyddu, bydd myfyriwr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn gallu gwneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu hyd at uchafswm uwch o £9,535 (a'r un peth ar gyfer y capiau ffioedd dysgu cysylltiedig). Pan fo myfyriwr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn astudio cwrs a ddynodir yn benodol gan Weinidogion Cymru neu gwrs a ddarperir gan ddarparwr cymeradwy yn Lloegr (darparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr nad yw uchafswm o ran capiau ffioedd yn gymwys iddynt), bydd yn gallu gwneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu hyd at uchafswm uwch o £6,355. Pan fydd myfyriwr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn astudio cwrs mynediad graddedig carlam (pedair blynedd o hyd) mewn meddygaeth neu ddeintyddiaeth yng Nghymru, bydd yn gallu gwneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu uwch hyd at uchafswm uwo £6,070.

7.4 Er nad oes gan fyfyriwr o Gymru unrhyw gostau i'w talu ymlaen llaw, mae'r ddyled yn debygol o gynyddu ychydig o ganlyniad (er enghraifft, cyfanswm o £855 ar gyfer cwrs gradd tair blynedd arferol mewn sefydliad rheoleiddiedig yng Nghymru). Mae ad-dalu benthyciad myfyriwr yn ddibynnol ar incwm, a gall cynnydd mewn dyled o ganlyiniad i ffioedd dysgu olygu bod rhai graddedigion ag incwm canolig yn ad-dalu am gyfnod hirach nag y byddent fel arall. Ar gyfer graddedigion ag incwm is, ni fydd eu had-daliadau'n cael eu heffeithio gan y bydd eu benthyciadau yn cael eu dileu ar ôl 30 mlynedd. Efallai na fydd hyn yn ddigon arwyddocaol i atal ceisiadau, yn enwedig o ystyried y bydd sefydliadau y tu allan

i Gymru yn gallu codi ffioedd tebyg ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Mae'r dystiolaeth ar elastigedd pris (ffioedd dysgu) y galw am addysg uwch yn y Deyrnas Unedig yn eithaf cyfyngedig ond yn gyffredinol mae'n awgrymu bod y galw yn gymharol anelastig[1]. Serch hynny, mae pwysau costau byw yn parhau i effeithio ar fyfyrwyr a gall y newidiadau i ffioedd dysgu wneud rhai myfyrwyr yn fwy sensitif i gynnydd mewn costau.

7.5 Cofnodir y costau sy'n deillio o gynyddu uchafswm y benthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer y ddwy flynedd ariannol sy'n cwmpasu blwyddyn academaidd 2025/26 yn nhabl 2. Mae hyn yn tybio y bydd y cynnydd yn berthnasol i bob myfyriwr.

**Tabl 2. Costau benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig llawnamser o Gymru**

| **Costau'r flwyddyn academaidd** | | | *£miliynau* |
|---|---|---|---|
| | **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** |
| Uchafswm ffioedd o £9,250 | £463.5 | £474.3 | £480.6 |
| Uchafswm ffioedd o £9,535 | £477.4 | £488.5 | £495.1 |
| | | | |
| Cost cynyddu'r cap ar ffioedd | **£13.9** | **£14.2** | **£14.4** |
| Cost y cynnydd @ RAB (heb fod yn arian parod) | £0.7 | £0.6 | £0.6 |
| | | | |
| **Costau'r flwyddyn ariannol** | | | *£miliynau* |
| | **20205-26** | **2026 - 27** | **2027 - 28** |
| Uchafswm ffioedd o £9,250 | £456.3 | £467.0 | £475.6 |
| Uchafswm ffioedd o £9,535 | £463.1 | £481.1 | £490.0 |
| | | | |
| Cost cynyddu'r cap ar ffioedd | **£6.8** | **£14.1** | **£14.4** |
| Cost y cynnydd @ RAB (heb fod yn arian parod) | £0.4 | £0.7 | £0.6 |
| *Mae'r costau ar gyfer blwyddyn ariannol 25-26 yn cynnwys costau 2024/25 ar y cap presennol o £9,250* *Ar sail benthyciad llawn i dalu holl gostau ffioedd dysgu, ar gyfer nifer y myfyrwyr y rhagwelir y byddant yn cymryd benthyciadau* | | | |
| *Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru* | | | |

[1] Gweler er enghraifft Sa, 2017 (The_E_ect_of_University_Fees_SA_Accepted13July2017_GREEN_AAM.pdf ) a Dearden et al, 2011 (Effaith ffioedd dysgu a chymorth ar gyfranogiad prifysgolion yn y DU)

## 8. Asesiad o'r gystadleuaeth

8.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2025 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## 9. Asesu ar ôl gweithredu

9.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol. Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi’r rheoliadau ar waith.